

CYNAN ab OWAIN (bu farw 1174), tywysog

Enw: Cynan ab Owain

Dyddiad marw: 1174

Plentyn: Maredudd ap Cynan ab Owain Gwynedd

Plentyn: Gruffydd ap Cynan ab Owain Gwynedd

Rhiant: Owain ap Gruffydd ap Cynan

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: tywysog

Maes gweithgaredd: Milwrol; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig

Awdur: John Edward Lloyd

mab [Owain Gwynedd](#), ond ni wyddys pwy oedd ei fam. Yn 1145 ymosododd ef a [Hywel](#) ei frawd ar Aberteifi; anrheithiwyd y dref ond ni chymerwyd mo'r castell. Ddwly flynedd yn ddiweddarach goresgynnodd y brodyr Feirionnydd a bwrw allan eu hewythr [Cadwaladr](#); gan iddynt ymosod o gyfeiriadau gwahanol ymddengys fel petai Cynan wedi ymsefydlu yn Ardudwy. Yn 1150 dywedir ei garcharu gan ei dad. Cymerth ran flaenllaw pan oeddid yn gwrthwynebu Harri II yn 1157 - gyda'i frawd [Dafydd](#) bu iddo gyfran yn yr ymosodiad sydyn yng nghoedydd Penarlaga a fu bron yn achos i ymgyrch y brenin fethu'n gyfan gwbl. Daeth yr hyn a wnaeth yn 1159, pan geisiodd pum iarll ddal [Rhys ap Gruffydd](#), â llai o glod iddo. Pan fu farw ei dad yn 1170, y mae'n debyg fod Cynan yn teyrnasu ar Eifionydd, Ardudwy, a Meirionnydd, a fu'n ddiweddarach ym meddiant ei dylwyth; yn 1188 yr oedd ei fab hynaf Gruffydd yn teyrnasu ar Feirionnydd (ac efallai ar Ardudwy), a'i fab iau, [Maredudd](#), ar Eifionydd.

Awdur

Syr John Edward Lloyd, (1861 - 1947)

Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), 490, 497-8, 511, 549 n., 550-1, 564

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Cynan ab Owain Gwynedd](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q5199872](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

